Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Meithrinfa Garth Olwg**

**Gartholwg Community Campus**
**Pentre`r Eglwys**
**Pontypridd**
**CF38 1RQ**



## Dyddiad yr arolygiad wedi'i gwblhau

25/04/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk. Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn âMeithrinfa Garth Olwg

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarpeir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Mudiad Meithrin CYF |
| Uchafswm y lleoedd cofrestredig | 60 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 8 Tachwedd 2021 |
| Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Arolwg â phwyslais oedd hwn, ac am hynny nid ydym wedi ystyried y themâu yn llawn y tro hwn.

Mae'r plant yn teimlo'n hapus, hyderus ac yn cael cyfleoedd da i ddilyn eu diddordebau. Mae'r plant yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau ac yn cydweithio'n dda gyda'i chyfoedion a'r bobl o'i gwmpas.

Mae'r staff gofal yn deall y polisïau a'r gweithdrefnau er mwyn sicrhau bod y plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu plant. Mae rhai staff yn rhyngweithio'n hyderus gyda'r plant ac yn goruchwylio'n ofalus iawn.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn darparu amrywiaeth o adnoddau, teganau a chelfi sy'n addas ar gyfer y plant.

Mae'r arweinwyr wedi gwneud nifer o welliannau arwyddocaol sydd wedi creu canlyniadau gwell i blant ac wedi gwella diogelwch yr amgylchedd. Maent wedi datblygu a gweithredu llawer o newidiadau positif ac yn ceisio i wella'r gwasanaeth.

## Llesiant

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Ar y cyfan, mae plant yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau, penderfyniadau a mynegi barn. Mae safbwyntiau a diddordebau'r plant yn cael eu gwerthfawrogi ac mae'r staff gofal yn gweithredu arnynt. Mae llawer o blant yn cyfathrebu yn hyderus gyda staff gofal a'u cyfoedion, a maent yn derbyn sylw sydd yn dangos diddordeb a gwerthfawrogiad. Mae llawer o blant yn cyfrannu at syniadau ar gyfer gweithgareddau. Er enghraifft, pan mae'r plant yn gofyn am gwrs rhwystrau tu allan, maent yn cynnig syniadau o rhan sut mae hyn yn cael ei adeiladu.

Mae llawer o blant yn hapus, yn teimlo'n ddiogel a wedi ffurfio perthnasau da gydag y rhan fwyaf o staff gofal a'u cyfoedion. Mae plant yn derbyn cysur a chefnogaeth yn gyson gan staff gofal. Mae rhan fwyaf o blant yn rhyngweithio yn agored ac yn hyderus gyda'i gilydd ac yn cydweithio a chymdeithasu mewn modd hawddgar. Maent yn deall sut i cymryd tro, aros a rhannu. Mae llawer o blant yn datblygu sgiliau cyfathrebu da ac yn gwybod y cawn eu gwrando arnynt. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r oedolion yn gadarnhaol ac mae rhan fwyaf o blant yn cydweithio, dangos diddordeb a chymryd rhan. Er enghraifft, wrth chwarae tu allan, mae plant yn rhesi lan yn eu ceir, yn aros yn amyneddgar a chyfathrebu gyda'r plentyn sydd yn y car ar y blaen.

Mae rhan fwyaf o blant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ac yn egnïol a chwilfrydig wrth iddynt chwarae. Maent yn dangos diddordeb a mwynhad wrth cymryd rhan. Er enghraifft, y mae'r plant wrth eu bodd yn creu sŵn gyda'u offerynnau fel rhan o band. Mae rhan fwyaf o blant yn mwynhau rhyddid i symud o amgylch ardaloedd y lleoliad a dewis gweithgareddau a chyfleoedd cyson ar gyfer chwarae rhydd. Maent hefyd yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau rhyngweithiol fel amser stori ac ymarfer geiriau a synau.

Mae llawer o blant yn cael cyfleoedd da a chyson i ddatblygu sgiliau corfforol, cymdeithasol ac emosiynol. Mae llawer yn gallu dilyn diddordebau eu hunain ac yn dangos hyder a sgiliau wrth iddynt cymryd rhan yn annibynnol yn y gweithgareddau.

## Gofal a Datblygiad

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae rhan fwyaf o staff gofal yn datblygu eu dealltwriaeth ac yn gweithio tuag at weithredu polisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch personol a llesiant. Maent yn dilyn polisïau ac asesiadau risg yn gyson. Mae gan y staff ddealltwriaeth glir am beth i wneud os oedd pryderon diogelu plant. Mae'r mwyafrif o staff gofal yn nodi risgiau ac yn eu rheoli'n weithredol rhan fwyaf o'r amser. Maent yn atgoffa plant am fod yn ofalus ac yn goruchwylio'r amgylchedd. Er enghraifft, wrth chwarae tu allan, y mae'r staff yn  cefnogi plant, neu'n tacluso adnoddau ac yn ystod amser cinio yn atgoffa'r plant i eistedd y ffordd cywir ar y cadeiriau. Mae'r rhan fwyaf o staff gofal yn gweithredu arferion glanhau cadarn a hylendid da. Maent yn dilyn gweithdrefnau'r gwasanaeth yn gyson. Er enghraifft, gan olchi dwylo'r plant cyn cinio a sicrhau bod adnoddau glanhau wedi storio'n gywir.

Mae rhan fwyaf o staff gofal yn cefnogi plant trwy greu gofod addas y gallent chwarae ynddo a gweithredu egwyddorion gwaith chwarae. Maent yn trefnu gweithgareddau addas ar gyfer oedran y plant. Fodd bynnag, nid yw pob aelod o staff yn defnyddio pob cyfle i ddatblygu sgiliau rhyngweithio'r plant yn effeithiol. Er enghraifft, nid yw staff gofal yn hybu sgiliau cymdeithasol y plant ieuangaf yn ystod amser cinio. Ers yr arolwg diwethaf mae'r staff wedi datblygu cynllunio ar draws yr ystafelloedd ac yn addasu'r cofnod/themâu ar gyfer oedran y plant.

## Yr Amgylchedd

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae gan arweinwyr fesurau/polisïau effeithiol ar waith i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau â diogelwch a llesiant plant. Fodd bynnag, nid yw’r arweinwyr yn sicrhau bod bob ymwelwr yn llofnodi’r llyfr ymwelwyr. Mae’r arweinwyr wedi bod yn ymarfer driliau tân yn fanwl gan gofnodi gwybodaeth pwysig fel rhan o’r cofnodion. Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, o dan dô ac yn yr awyr agored. Mae newidiadau wedi bod yng nghylch diogelwch yr amgylchedd ers yr arolwg diweddaf. Er enghraifft, maent wedi gosod system newydd i brif ddrysau y gwasanaeth ac wedi creu ffeil sy’n cynnwys cofnod o dystysgrifau/cofnodion profion diogelwch. Maent wedi datblygu ac yn defnyddio asesiadau risg effeithiol. Mae’r person â chyfrifoldeb yn hyderus ac yn delio gyda materion perygl yn bositif iawn. Er enghraifft, yn ystod yr ail ymweliad i’r gwasanaeth roedd problem gyda’r drws blaen. Roedd y person â chyfrifoldeb wedi asesu’r risg a rhoi pethau yn eu lle er mwyn lleihau'r risg i’r plant.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod ystod eang o ddodrefn ac  adnoddau ar gael i bob plentyn, tu fewn a thu allan, ac wedi eu storio ar lefel sydd o fewn cyrraedd y plant. Maent mewn ansawdd da ac yn ysgogi diddordeb a dychymyg y plant. Ers yr arolwg diwethaf mae arweinwyr wedi ychwanegu adnoddau dysgu pellach yn yr ystafelloedd chwarae.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae gan arweinwyr weledigaeth gref a maent yn rhannu hyn gyda’r tîm ag eraill. Ers yr arolygiad diwethaf mae’r arweinwyr wedi gweithio’n galed i ddatblygu a gweithredu newidiadau. Er enghraifft, maent wedi creu gweithdrefnau sydd yn gwella safonau diogelwch yr amgylchedd. Mae arweinwyr yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio’n llawn â’r holl reoliadau perthnasol ac yn bodloni’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae arweinwyr yn cynnal a rhannu datganiad o ddiben effeithiol a chyfredol sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir ac sy'n bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae arweinwyr yn cyfathrebu ac yn hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau arwyddocaol. Fodd bynnag, nid oedd yr arweinwyr wedi hysbysebu AGC am newidiadau i’r staff. Ers yr ymweliad mae’r arweinwyr wedi cwblhau hysbyseb am newidiadau i’r staff. Mae arweinwyr yn sicrhau bod rhan fwyaf o gofnodion gofynnol yn cael eu cadw'n gywir. Fodd bynnag, nid yw’r arweinydd yn sicrhau bod pob aelod o staff yn cofnodi amseroedd brêc yn gyson. Mae arweinwyr; bron bob amser, yn gwneud eu gorau bod staff gofal yn cael eu lleoli mewn ardaloedd sydd yn sicrhau bod cymarebau staffio yn cael eu bodloni a bod anghenion plant yn cael eu cwrdd. Fodd bynnag, yn ystod un ymweliad gwelir nad oedd digon o staff. Cafodd hyn ei ddatrys cyn diwedd yr ymweliad.

Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod staff cymwys yn gofalu am y plant. Maent yn gweithredu prosesau recriwtio cadarn. Dywed staff eu bod yn mwyhau gweithio yn y gwasanaeth, yn cael llawer o gefnogaeth ac yn teimlo’n hapus i fod yn rhan o’r tîm. Cynhelir goruchwyliaeth ac arfarniadau pwrpasol yn rheolaidd.

**Argymhellion er mwyn cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

Ychwanegwch R1. R2. ac ati a'r geiriad sydd ei angen â llaw. Nid rheoliadau yw'r rhain, ond safonau gofynnol cenedlaethol.

A1. Datblygu sgiliau'r staff er mwyn hybu rhyngweithio effeithiol.

A2. Sicrhau bod cofnod o bob ymwelydd i'r gwasanaeth.

A3. Sicrhau bod pob aelod o staff yn cofnodi amseroedd brêc.

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad. |
| **Wedi ei adolygu** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ond ni chafodd ei chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ond ni chafodd ei chyflawni. |
| **Wedi ei gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

Pan rydym yn canfod achos o ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn eu hamlygu fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu er mwyn unioni hyn, a byddwn yn ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf. Os bydd y darparwyr wedi methu â chyflawni'r gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Meysydd I'w Gwella |
|---|

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|---|---|---|
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

**Dyddiad Cyhoeddi** 01/07/2022